

## **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Archwiliad CDLI Amnewid yn y Datganiad Agoriadol Cyhoeddus**

Fy enw i yw John Raine, Arweinydd Grŵp ar gyfer Tîm Cynllunio Polisi'r Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi a gwneud arolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd fy nghydweithwyr yn cadw cwmni â mi yn ystod y sesiynau gwrandawriad, sef Craig Watkins, Natasha Lade, David James fel y bo'n angenrheidiol. Yn ychwanegol, mae'n bosibl y bydd ymgynghorwyr arbenigol hefyd yn eistedd ochr yn ochr â'r Cyngor i ateb unrhyw gwestiynau technegol.

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig cyfredol y Cyngor, sy'n cynnwys y cyfnod 2006 – 2021, ei fabwysiadu ar 25 Mai 2011. Bu'r cynllun cyfredol yn destun monitro blynyddol sy'n asesu'r graddau y cafodd strategaeth a pholisïau'r Cynllun eu cyflenwi.

Yn unol â Rheoliadau CDLI, dechreuodd arolwg o'r CDLI mabwysiedig ar 25 Mai 2015, bedair blynedd yn dilyn ei fabwysiadu. Yna, cafodd "Adroddiad Arolwg" ei gynhyrchu a oedd yn ystyried y data monitro a gasglwyd a graddau'r newidiadau gofynnol i'r CDLI mabwysiedig.

Tra bo'r CDLI wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o feysydd allweddol, dynodwyd nad oedd rhai agweddau o'r Cynllun yn gwneud cynnydd tuag at eu nodau gwreiddiol penodol. I grynhoi, maen nhw'n cynnwys:

- Y cyflenwad o dir tai;
- Y nifer o anheddau sy'n cael eu hadeiladu, yn enwedig anheddau cyffredinol y farchnad;
- Cyfanswm yr arwynebedd llawr cyflogaeth newydd a adeiledir;
- Y ganran o ddyraniadau tir CDLI a ganiatawyd ac a gyflenwyd; a
- Chyfradd adeiladau gwag o ran eiddo manwerthu yng Nghanol Tref Merthyr Tudful.

Un o'r materion allweddol a ddynodwyd oedd nad oedd y dyraniadau'n ymddangos ar y raddfa a ragwelwyd yn wreiddiol o dan "Strategaeth Twf Estynedig" y CDLI cyfredol (i ddarparu 253 annedd y flwyddyn).

Wrth ymateb, bu'r Cyngor yn ystyried amrywiaeth o opsiynau strategaeth twf a gofodol. Cafodd tri opsiwn twf eu gosod ar restr fer i'w hystyried yn fanwl - opsiwn twf uwch (neu barhad o strategaeth twf cyfredol), opsiwn twf canolig (ar gyfer twf poblogaeth gynaliadwy - y strategaeth a ffafrir) ac opsiwn twf isel (yn seiliedig ar brif ragamcniadau poblogaeth).

Cafodd tair strategaeth ofodol eu hystyried yn seiliedig ar yr amrywiaeth o safleoedd ymgeiswyr a hyrwyddwyd - opsiwn estyniad trefol i Ferthyr Tudful ac opsiwn safleoedd llai o faint, opsiwn safleoedd bach gwasgaredig a'r opsiwn Ardal Adfywio Strategol Hoover a safleoedd llai - y strategaeth a ffefrir.

Cafodd y CDLI Amnewid ei lywio gan ddatblygiad Strategaethau Llesiant Lleol ac arolwg o gynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cafodd y CDLI Amnewid hefyd ei lywio gan baratoad o'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf ac arolwg o'r meysydd pynciol eraill a ddynodwyd yn adroddiad yr arolwg yng ngoleuni'r dystiolaeth honno.

Y mae'r Cyngor yn ystyried mai'r strategaeth sy'n cael ei chynnig yn y CDLI Amnewid yw'r opsiwn fwyaf priodol gan ei fod yn cynnig darpariaethau o ran twf realistig a chynaliadwy'r Fwrdeistref Sirol dros gyfnod y cynllun hyd at 2031. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor yn ystyried bod y Cynllun yn tafoli lefel y twf â'r angen i ddiogelu asedau amgylcheddol naturiol a hanesyddol y Fwrdeistref Sirol.

Gwnaeth y Strategaeth gynnig nodau i gymryd mantais o'r datblygiadau cadarnhaol sydd wedi digwydd yn y Fwrdeistref Sirol dros y deng i bymtheng mlynedd ddiwethaf, ac mae'n gwneud y mwyaf o'r cyfle i ailddatblygu safle cyn Ffatri Hoover i fod yn gymuned newydd â chysylltiadau ardderchog â'r Brifddinas-Ranbarth.

Cafodd paratoad o'r CDLI Amnewid ei lywio drwy ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid sydd wedi cymryd lle yn ystod y camau cyn adnau drwy ddefnyddio gweithdai strategaeth llesiant a gweithgorau CDLI. Ymgwymerwyd hefyd ag ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn ystod camau'r Strategaeth a Ffafir, Cynllun Adnau a Chyflwyno yn unol â Chytundeb Cyflenwi CDLI a gymeradwywyd.

Yn olaf, mae'r Cyngor wedi paratoi datganiadau ar gyfer pob sesiwn gwrandawriad sy'n ymateb i'r materion a godwyd gan yr Arolygydd.

Ble y bo'n gymwys, mae'r rhain yn crynhoi'r cyfiawnhad a'r dystiolaeth gefnogi sy'n arddangos fod y CDLI Amnewid yn bodloni'r Profion Cadernid. Ble y caiff ei ystyried yn angenrheidiol cafodd "Newidiadau a Gynigiwyd i Faterion yn Codi" eu hawgrymu gan y Cyngor er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ynghylch cadernid, er enghraifft, newidiadau mewn polisi cenedlaethol ers cyflwyno'r Cynllun.